

Sut y gall yr Uned Horizon 2020 eich helpu chi...



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae Uned Horizon 2020 Llywodraeth Cymru ar gael i gynorthwyo'r holl sefydliadau yng Nghymru sy'n gwneud neu'n ystyried gwneud cais am gyllid ar gyfer ymchwil ac arloesi gan yr UE. Rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid ar lefel Cymru, y DU a'r UE i gyd-drefnu a hwyluso'r ystod eang o gefnogaeth a chynghor sydd ar gael er budd sefydliadau yng Nghymru. Ceisiwn hefyd ddylanwadu ar weithgareddau perthnasol yng Nghymru a Brwsel drwy godi ymwybyddiaeth, ymgysylltu a thargeddu Buddsoddiad y Cronfeydd Strwythurol.

Ein Prif Wasanaethau

- Darparu cynghor ac arweiniad cyffredinol ar Horizon 2020.
- Cyfeirio deallus at y gefnogaeth arbenigol gywir ar gyfer eich sefydliad.
- Cymorth ariannol (gweler isod).
- Darparu cynghor arbenigol ar y modd y gall y Cronfeydd Strwythurol gefnogi ymchwil ac arloesi yng Nghymru, gan gynnwys synergeddau â Horizon 2020.
- Mynediad at / cyfathrebu â Rhwydwaith Pwynt Cyswllt Cymru a chymuned ehangach Horizon 2020.
- Pwynt cyswllt ar gyfer sefydliadau Cymreig sydd â 'Sêl Rhagoriaeth' gan y Comisiwn Ewropeaidd (neu sgôr werthuso uchel).
- Datblygu a chefnogi digwyddiadau / gweithdai / hyfforddiant wedi'u targedu.
- Datblygu a hybu astudiaethau achos.
- Arweiniad strategol ar Horizon 2020 ar gyfer Llywodraeth Cymru.
- Cyswllt rhanbarthol ar gyfer Rhwydwaith Horizon 2020 Llywodraeth y DU.

SCoRE Cymru (Cefnogi Ymchwil ac Arloesi Cydweithredol yn Ewrop)

Cynllun gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnig cyllid i ysgogi sefydliadau yng Nghymru i gymryd rhan yn rhaglenni ymchwil ac arloesi Ewrop fel Horizon 2020.

Teithio: cymorth ar gyfer y costau a ysgwyddir er mwyn cwrdd â darpar bartneriaid neu bartneriaid presennol ac i fod yn bresennol mewn digwyddiadau pwysig. Gellir hawlio ar gyfer: awyren/trên/milltiroedd; gwely a brecwast; ffioedd cynhadledd; llogi ystafell. Bydd swm y cyllid yn amrywio:

- Uchafswm o £1,000 ar gyfer bob taith;
- Hyd at 100% o'r costau ar gyfer BBaCh, hyd at 50% ar gyfer Addysg Uwch (neu 75% os ydynt yn teithio gyda BBaCh o Gymru), hyd at 50% i sefydliadau eraill mewn amgylchiadau penodol (e.e. y sector cyhoeddus, mentrau mawr).

Datblygu cynigion: cymorth ar gyfer y costau a ysgwyddir wrth gael gwasanaeth gan arbenigwyr, e.e. llunio cynnig, cynghor cyfreithiol/technegol penodol neu ymchwil i'r farchnad/effaith. Bydd swm y cyllid yn amrywio:

- Yn gyffredinol, hyd at £5,000 a 50% o'r costau;
- Hyd at £10,000 a 75% o'r costau mewn rhai amgylchiadau, e.e. cais cyntaf, cydgysylltwyr cynigion.

Dysgwch fwy:

E-bostiwch: horizon2020@wales.gsi.gov.uk

ffoniwch: 0845 010 3355

ewch i: <http://ow.ly/SyKV304pDiz>